



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwerthusiad ffurfiannol
o fodel ysgolion arloesi:
crynodeb o ganfyddiadau
mewn perthynas â
datblygiad y Fframwaith
Cymhwysedd Digidol

YMCHWIL GYMDEITHASOL
Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Argymhellodd *Dyfodol Llwyddiannus* y dylid cynnal gwerthusiad annibynnol o'r dull o ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru. Mae hyn bellach wedi dechrau gan ganolbwyntio ar y strwythur newid.

Bydd cam cyntaf y gwerthusiad yn cyflwyno adborth ar y pryd ar sut mae'r model ysgolion arloesi yn gweithio yn ystod cam dylunio a datblygu'r cwricwlwm. Mae'r dull sybsidiaredd yn arloesol ac yn wahanol, felly mae'n bwysig deall sut y mae'r model yn gweithio ac a oes angen unrhyw newidiadau i'r broses cyn cychwyn ar y gweithredu.

Mae'r ddogfen fer hon yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'r gwerthusiad ffurfiannol o'r model ysgolion arloesi. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygiad y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (Y Fframwaith), ac yn cyflwyno canfyddiadau cyfweiliadau gydag ysgolion arloesi digidol, arbenigwyr allanol a sefydliadau addysg yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2016. Mae'r gwerthusiad yn parhau tan fis Rhagfyr 2017, a bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyhoeddi o fewn y cyfnod hwn.

1. Y model arloesi a datblygiad y Fframwaith

Noda cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu yng Nghymru sef *Cwricwlwm i Gymru: cwricwlwm am oes*, bod y model ysgolion arloesi yn ceisio sicrhau 'mwy o gyfrifoldeb i ysgolion ac ymarferwyr i benderfynu beth a addysgir'. Mae'r Rhwydwaith Arloesi yn ceisio sicrhau bod cymaint o ysgolion ac ymarferwyr â phosibl yn rhan o'r broses dylunio a datblygu. Mabwysiadwyd y dull yma o weithio yn ystod y broses o ddylunio'r Fframwaith. Rhoddwyd y dasg o ddylunio a datblygu'r Fframwaith i dair ar ddeg ysgol arloesi ddigidol (neu bartneriaethau o ysgolion) ar draws Cymru.

Bu ysgolion yn gefnogol o'r model ysgolion arloesi. Roeddent yn teimlo bod y model yn:

- golygu bod eu harbenigedd a'u gwybodaeth broffesiynol yn cael eu gwerthfawrogi
- darparu cyfleoedd da i ysgolion gydweithio a dysgu oddi wrth ei gilydd. Roedd yn caniatáu ymarferwyr o wahanol sectorau ag ystod o arbenigeddau gwahanol i gynllunio fframwaith newydd ar gyfer dysgu digidol, yn seiliedig ar ddeialog broffesiynol a gweithio ar y cyd.

2. Datblygu'r Fframwaith: ffactorau llwyddiant

Adroddodd rhai ysgolion eu bod yn ansicr ynglŷn â'u rolau ar ddechrau'r broses, gan nodi nad oeddent yn amgyffred yn llawn ar y dechrau yr hyn a ofynnwyd iddynt ei wneud fel rhan o'r ffordd newydd o weithio. Roedd teimlad cyffredinol bod angen cyfeiriad strategol cliriach yn ystod cyfarfodydd cychwynol y rhwydwaith, yn benodol mewn perthynas â sut i ddefnyddio'u hamser yn yr ysgol rhwng cyfarfodydd.

Cytunodd ysgolion a rhanddeiliaid fod y broses o ddatblygu'r Fframwaith wedi gwella wrth i amser fynd heibio.

Y ffactorau a helpodd yr arloeswyr ddeall eu rolau oedd:

- cael cynnyrch neu allbwn penodol i weithio tuag ato. Roedd hyn yn eu helpu i ganolbwyntio a darparu nôd cyffredin i bawb
- gweithio ar bynciau/ffrydiau gwaith mewn grwpiau llai i helpu i ddatblygu a phoblogi'r Fframwaith
- roedd yr arloeswyr digidol yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd rhwydwaith deuddydd (yn hytrach na'r cyfarfodydd undydd cychwynnol). Roedd y ffordd hon o weithio yn fwy gwerthfawr, gan ddarparu cyfleoedd i'r arloeswyr i drafod cynnwys a sylwedd y fframwaith yn fwy manwl.

Roedd y Rhwydwaith Arloeswyr Digidol yn cynnwys cynrychiolaeth gytbwys o ysgolion uwchradd, cynradd, cyfrwng Cymraeg ac ysgolion arbennig. Roedd pob ysgol yn mynychu o'r cychwyn ac wedi sicrhau bod anghenion dysgwyr ac ymarferwyr o bob sector yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

3. Rôl sefydliadau partner ym mhroses cyd-greu'r FfCD

Gweithiodd arloeswyr digidol ochr yn ochr â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru, sef arbenigwyr academiaidd, consortia addysg ac Estyn fel rhan o ddatblygiad y Fframwaith.

Chwaraeodd arbenigwyr allanol a sefydliadau rhan bwysig yn natblygiad y Fframwaith.

- Fe werthfawrogwyd mewnbwn priodol gan arbenigwyr academiaidd drwy grŵp Sicrhau Ansawdd, dan gadeiryddiaeth yr Athro Tom Crick.
- Cafodd consortia rôl bwysig wrth gydlynu ysgolion arloesi ar lefel ranbarthol – mae'r rôl bwysig hon yn parhau. Maent yn cefnogi darpariaeth, gan roi cyngor a mewnbwn arbenigol. Gallant hefyd hybu ymwybyddiaeth o waith ysgolion arloesi ymhlith ysgolion partner.
- Gwnaeth Estyn gyfraniad pwysig i ddatblygiad y Fframwaith. Mae'r arolygiaeth wedi ymrwmo i gefnogi arferion arloesol wrth arolygu ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.

4. Gweithgareddau i brofi a mireinio'r Fframwaith mewn ysgolion

Cwblhawyd gwaith gan arloeswyr digidol yn eu hysgolion i brofi a mireinio syniadau gan ddefnyddio casgliadau i fwydo dyluniad y Fframwaith. Roedd hyn yn cynnwys

treialu syniadau a dulliau newydd gyda grwpiau bach o ddysgwyr i helpu i adnabod arferion da. Darparodd arloeswyr digidol sesiynau hyfforddi a rhannu gwybodaeth i staff yn eu hysgolion eu hunain ac mewn ysgolion partner. Mewn rhai achosion, adroddodd arloeswyr digidol deimlad o ansicrwydd ynghylch pa weithgareddau oedd disgwyl iddynt eu cyflawni yn yr ysgol yn ystod y ddau ddiwrnod yr wythnos y cawsant eu hariannu. Roedd hyn yn wir yn enwedig ar ddechrau'r broses cyn datblygu a chytuno cynnwys y Fframwaith. Awgrymwyd bod hyn wedi arwain at amrywiaeth yn y gwaith a gwblhawyd gan arloeswyr digidol.

Rhai o'r blaenoriaethau ar gyfer defnydd parhaus y Fframwaith oedd:

- cynnwys mwy o staff fel bod gweithgareddau arloesi yn cael eu lledaenu ar draws yr ysgol gyfan, ac nid wedi'u cyfyngu i aelodau unigol o staff yn yr ysgolion arloesi
- adnabod adnoddau a deunyddiau enghreifftiol gall gefnogi defnydd o'r Fframwaith, yn enwedig adnoddau a gellir eu rhannu drwy Hwb
- diffinio anghenion dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ac arweinyddion ysgolion i allu defnyddio'r Fframwaith, ymhlith ysgolion arloesi ar draws y rhwydwaith ehangach ac ysgolion partner ledled Cymru.

5. Trefniadau grant a monitro

Sicrhaodd y grant a ddarperir i arloeswyr digidol gan Lywodraeth Cymru bod digon o gapasiti ar gael i gefnogi datblygiad y Fframwaith. Nododd ysgolion bod angen mwy o fewnbwn yn hwyrach yn ystod y flwyddyn ysgol pan oedd y Fframwaith yn cael ei boblogi, ac awgrymodd rhai y gallai'r trefniadau grant fod wedi adlewyrchu hyn. Adroddodd ysgolion, yn ystod datblygiad y Fframwaith, nad oedd llawer o fonitro gan y gonsortia o weithgareddau lefel ysgol oedd yn gysylltiedig â'r cyllid a dderbyniwyd.

Wrth edrych ymlaen at waith yr arloeswyr digidol a'r Rhwydwaith Arloeswyr ehangach yn y dyfodol:

- roedd consensws ynghylch yr angen i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion arloesi gadw cofnod cryno o weithgareddau lefel yr ysgol, gan fyfyrion ar werth a budd gwahanol gweithgareddau oedd wedi eu datblygu a'u profi yn yr ysgol
- gan dynnu ar y wybodaeth fonitro ar lefel ysgol, dylai'r consortia hefyd fonitro ansawdd gweithgareddau'r arloeswyr, gan sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle i adnabod arfer effeithiol ac arloesol a'u rhannu gyda grwpiau perthnasol a chydag ysgolion eraill yn ehangach.

6. Pwyntiau dysgu

Nododd ysgolion a rhanddeiliaid bod nifer o bwyntiau dysgu oedd yn cael eu crybwyll yn gyson sy'n haeddu ystyriaeth bellach. Gall y materion hyn fod yn berthnasol yn nefnydd y Fframwaith ac yng nghyd-destun gweithgareddau Meysydd Dysgu a Phrofiad yn ystod Haen 2 ar draws y Rhwydwaith Arloesi ehangach.

Mae materion sy'n allweddol i lwyddiant y model arloesi yn cynnwys:

- **arweinyddiaeth** – sicrhau hwyluswyr profiadol â chanddynt gymwysterau priodol a gwybodaeth pwnc arbenigol. Sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff trafodaethau eu hwyluso
- **sicrhau bod ysgolion yn glir ynghylch y disgwyliadau sydd arnynt** – dylai hyn fod yn gysylltiedig â llinell amser o weithgareddau yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, gan adolygu a yw cerrig milltir/nodau wedi eu cyflawni
- **darparu rôl glir i'r consortia fel rhan o'r rhaglen** – dylai hyn cynnwys cefnogi ysgolion a hwyluso defnydd y Fframwaith. Tra'n cydnabod y gwahanol fodelau gweithredol yn y consortia, mae angen sicrhau bod yna nodau neu ganllawiau cyffredin ar gyfer gweithio yn rhanbarthol er mwyn cefnogi gweithgarwch yr arloeswyr
- **atebolrwydd a sicrwydd ansawdd** – sicrhau bod system fonitro mewn lle sy'n cefnogi atebolrwydd yn y model. Sicrhau bod ansawdd y gweithgarwch arloesi yn cael ei fonitro. Yn yr un modd, sicrhau bod ymarferwyr 'yn cael rhyddid i arloesi' a bod y trefniadau arolygu yn ystyried y gwaith arbrofol sy'n cael ei gwneud gan ysgolion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ysgolion arloesi
- **ymagwedd systematig tuag at ymgysylltu ag ysgolion partner** – roedd ymgysylltiad gydag ysgolion partner trwy weithgarwch Fframwaith i'w weld yn ad hoc; mae angen bod yn fwy systematig yn y modd mae'r arloeswyr digidol, wedi'u cefnogi gan y consortia, yn ymgysylltu ag ysgolion yn eu clystyrau a rhanbarthau ehangach. Dylai arferion da o ran ymgysylltu gael eu nodi a'u rhannu ag ysgolion partner
- **cyfathrebu cynnydd a sicrhau bod datblygiadau gwirioneddol i'w gweld.** Roedd cael y Fframwaith fel 'cynnyrch' wedi helpu rhoi siâp a strwythur i weithgareddau'r arloeswyr digidol.